

B1. Datblygu a gweithredu cynlluniau gweithredol ar gyfer maes eich cyfrifoldeb

Crynodeb o'r Uned

Beth yw cwmpas yr uned?

Dylai pob sefydliad fod â chynllun busnes strategol cyffredinol, a dylai pob maes cyfrifoldeb dynodedig fod â chynllun gweithredol hefyd a fydd yn cyfrannu at gyflawni'r amcanion mae'r cynllun busnes strategol yn manylu arnyn nhw.

Gallai'r 'maes cyfrifoldeb' fod, er enghraifft, yn gangen neu'n adran, neu'n faes swyddogaethol neu'n safle gweithredu o fewn sefydliad.

Ar gyfer pwy mae'r uned?

Argymhellir yr uned ar gyfer rheolwyr canol.

Cysylltiadau ag unedau eraill

Mae yna gysylltiad rhwng yr uned hon ac uned **B6. Darparu arweinyddiaeth ym maes eich cyfrifoldeb** ac **E2. Rheoli cyllid ar gyfer maes eich cyfrifoldeb** yng nghyfres gyffredinol y Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol ar gyfer rheolaeth ac arweinyddiaeth.

Sgiliau

Isod rhestrir y prif 'sgiliau' generig y mae angen eu defnyddio wrth ddatblygu a gweithredu cynlluniau gweithredol ar gyfer maes eich cyfrifoldeb. Mae cynnwys manwl yr uned yn nodi'n benodol/yn awgrymu'r sgiliau hyn, ac maent wedi'u rhestru yma fel gwybodaeth ychwanegol.

- Cynllunio
- Rheoli risg
- Dirprwyo
- Rhwydweithio
- Cynnwys pobl eraill
- Arloesi
- Ymgynghori
- Cyfathrebu
- Dylanwadu a pherswadio
- Monitro
- Gwerthuso
- Gosod amcanion
- Adeiladu consensws

B1. Datblygu a gweithredu cynlluniau gweithredol ar gyfer maes eich cyfrifoldeb

Canlyniadau perfformiad effeithiol

Mae'n rhaid i chi allu gwneud y pethau canlynol:

1. Cydbwysu syniadau newydd ag atebion profedig.
2. Cydbwysu risg â chanlyniadau dymunadwy.
3. Sicrhau bod eich cynlluniau'n gyson ag amcanion maes eich cyfrifoldeb.
4. Sicrhau bod eich cynllun yn hyblyg ac yn gyflenwol i feysydd gwaith cysylltiedig.
5. Datblygu amcanion a'u dosrannu i bobl, ynghyd â'r adnoddau cysylltiedig.
6. Ennill cefnogaeth cydweithwyr allweddol a budd-ddeiliaid eraill.
7. Monitro a rheoli'ch cynllun fel ei fod yn cyflawni ei amcanion cyffredinol.
8. Gwerthuso rhoi'ch cynllun ar waith a gwneud argymhellion sy'n nodi arfer da a meysydd i'w gwella.

Ymddygiad wrth wraidd perfformiad effeithiol

1. Byddwch yn ceisio yn gyson i wella perfformiad.
2. Byddwch yn gweithio tuag at weledigaeth o'r dyfodol sydd wedi'i diffinio'n eglur.
3. Byddwch yn cyflwyno gwybodaeth yn eglur, yn gryno, yn fanwl-gywir ac mewn ffyrdd sy'n hybu dealltwriaeth.
4. Byddwch yn myfyrio'n rheolaidd ar eich profiadau eich hun a phrofiadau pobl eraill ac yn defnyddio'r rhain i ddarparu gwybodaeth ar gyfer gweithredu yn y dyfodol.
5. Byddwch yn gosod amcanion, ac yn cynllunio gwaith, yn nhrefn blaenoriaeth, er mwyn defnyddio amser ac adnoddau i'r eithaf.
6. Byddwch yn gosod amcanion ar gyfer eich hun ac eraill sy'n gofyn llawer ond yn gyraeddadwy.
7. Byddwch yn creu ymdeimlad o bwrpas cyffredin.
8. Byddwch yn cydbwysu agendâu ac yn adeiladu consensws.
9. Byddwch yn ystyried effaith eich gweithredoedd eich hun ar bobl eraill.

B1. Datblygu a gweithredu cynlluniau gweithredol ar gyfer maes eich cyfrifoldeb

Gwybodaeth a dealltwriaeth

Mae angen i chi wybod a deall y pethau canlynol:

Gwybodaeth gyffredinol a dealltwriaeth

1. Egwyddorion a dulliau cynllunio o'r tymor byr i'r tymor canolig
2. Pwysigrwydd bod yn greadigol ac yn arloesol wrth lunio cynllun gweithredol
3. Sut i ddatblygu amcanion gwaith sy'n SMART (Sbesiffig, Mesuradwy, Amcan clir, Realistig, Terfyn amser), a'u dosrannu
4. Sut i ddadansoddi a rheoli risg
5. Sut i ddatblygu a chynllunio ar gyfer pethau annisgwyl
6. Egwyddorion a dulliau dirprwyo
7. Sut i ddefnyddio adnoddau'n effeithiol i gyflawni amcanion
8. Sut i ymgynghori â chydweithwyr a budd-ddeiliaid allweddol eraill
9. Sut i fonitro a rheoli cynlluniau gweithredol i gyflawni eu hamcanion
10. Sut i ddatblygu a defnyddio fframwaith gwerthuso

Gwybodaeth a dealltwriaeth sy'n benodol i ddiwydiant/sector

1. Gofynion cyfreithiol, rheoliadol a moesegol yn eich sector
2. Datblygiadau'r farchnad yn eich sector
3. Cystadleuwyr gwirioneddol a rhai posibl, a'u strategaethau a'u cynlluniau
4. Partneriaid gwirioneddol a rhai posibl, a'u strategaethau a'u cynlluniau

Gwybodaeth a dealltwriaeth sy'n benodol i'r cyd-destun

1. Y farchnad mae'ch sefydliad yn gweithio ynddi
2. Gweledigaeth gyffredinol eich sefydliad a'r nodau rydych chi'n gyfrifol am eu cyflawni
3. Sail cwsmeriaid gwirioneddol a phosibl eich sefydliad
4. Cyfleoedd sydd ar gael yn y farchnad
5. Sut i ymateb i gyfleoedd yn y farchnad
6. Cydweithwyr a budd-ddeiliaid allweddol eraill, a'u hanghenion a'u disgwyliadau
7. Prosesau ar gyfer ymgynghori
8. Ffynonellau gwybodaeth gallwch eu defnyddio i fonitro a gwerthuso cynlluniau
9. Gweithdrefnau ar gyfer adrodd ar bethau a gwneud argymhellion.